**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Chwefror 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/Richard Weigh

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh

**Teitl:** Cynllun Cyfalaf 2017/18 - 2020/21 ac Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar elfen 2017/18 y Cynllun Cyfalaf. Hefyd ynghlwm mae argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol o gynigion Cyfalaf a argymhellir ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Darparu Cynllun Cyfalaf diwygiedig i'r aelodau gan gynnwys diweddariad ar brosiectau mawr a'r cynllun corfforaethol.

Mae'r Atodiadau canlynol wedi cael eu cynnwys:

- Atodiad 1: Crynodeb o gyllid cynllun cyfalaf
- Atodiad 2: Crynodeb o gynllun cyfalaf fesul Gwasanaeth
- Atodiad 3: Manylion amcangyfrifon cynllun
- Atodiad 4: Diweddariad ar brosiectau cyfalaf mawr
- Atodiad 5: Manylion argymhellion gan y Grŵp Buddsoddi Strategol
- Atodiad 6: Cynigion Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo
- Atodiad 7: Cynigion Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo – Gwybodaeth gefnogol ychwanegol
- Atodiad 8 – 17: Adroddiad Asesiad Effaith Lles ar gyfer pob prosiect a gaiff ei ystyried gan y Grŵp Buddsoddi Strategol

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran elfen 2017/18 o'r Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ar y prif brosiectau.

3.2 Bod yr Aelodau'n cefnogi argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodir yn Atodiad 5 a chrynhoir yn Atodiad 6.

3.3 Bod Aelodau yn cefnogi argymhelliad y Cabinet i gymeradwyo £25k ar gyfer cynnig terfyn cyflymder 40 mya ar Fwlch yr Oernant fel y manylir yn Atodiad 5 ac sydd wedi ei grynhoi yn Atodiad 6.

3.4 Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2018/19.

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Gwariant Cyfalaf 2017/18

Rhoddwyd yr adroddiad diwethaf ar y Cynllun Cyfalaf llawn i'r Cyngor ym mis Chwefror 2017. Mae diweddariadau misol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £38.5miliwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ers adrodd arno i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2018.

### 4.2 Prosiectau Mawr

Mae Atodiad 4 yn rhoi diweddariad ar y prosiectau mawr canlynol:

- Datblygiad Harbwr y Rhyl
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Newydd y Rhyl
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Glan Clwyd
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Carreg Emlyn
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Llanfair
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Ffydd, y Rhyl
- Datblygiad Glan y Môr a Pharc Dŵr y Rhyl

### 4.3 Cynllun Corfforaethol

Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn nodi uchelgais y Cyngor i sicrhau buddsoddiad sylweddol yn ei flaenoriaethau ac mae'r ffigurau diweddaraf yn tynnu sylw at y ffaith y bydd buddsoddiad cyfalaf y Cyngor yn y Cynllun oddeutu £116.955 miliwn.

Mae cyfran uchel o'r buddsoddiad hwn yn cynnwys cyflwyno wyth prosiect o fewn y cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band A).

| | **Cronfa'r Cyngor £miliwn** | **Cyllid Allanol £miliwn** |
|---|---:|---:|
| Ysgolion yr 21ain Ganrif. | 48.010 | 43.029 |
| Tai Gofal Ychwanegol a Chefndy | 7.500 | 0 |
| Priffyrdd | 13.500 | 4.916 |
| **Cyfanswm** | **69.010** | **47.945** |

Mae'r Cynllun yn gwneud tybiaethau allweddol ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau'r Cyngor ei hun, amcangyfrif o gostau ac amseriad y gwaith.

Mae crynodeb o amcangyfrif diweddaraf y Cynllun Corfforaethol 2012-2017 yn cael ei ddangos yn Atodiad 1.

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2017-2022 diweddaraf ar 17 Hydref 2017. Mae hwn yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y tymor presennol. Mae cyfanswm cost y cynllun wedi'i amcangyfrif ar £135 miliwn, ond mae'n debygol o newid

wrth i gynigion gael eu datblygu. Mae’r Cynllun yn cynnwys y band nesaf o gynigion gwella ysgolion. Fel rhan o hyn, cadarnhaodd y Cabinet ar 23 Ionawr 2018 fod ganddo ymrwymiad ariannol i ddarparu cynigion Band B.

4.4 **Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Cynllun Cyfalaf yn ddibynnol am ran o'i gyllid ar dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau gros a gyflawnwyd yn 2017/18. Yn ogystal â hyn mae nifer o waredíadau posibl yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

| | **2017/18 £000** |
|---|---:|
| Bodynys, Rhewl | 900 |
| Maes Glas, Efenechtyd | 350 |
| Tir ar East Parade, y Rhyl | 200 |
| **Cyfanswm** | **1,450** |

4.5 **Dangosyddion Darbodus**

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn pennu Dangosyddion Darbodus sy'n pennu terfynau darbodus ar ei fenthyca. Mae dyled y Cyngor yn £205.1 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn o fewn y Ffin Weithredol (£235 miliwn) a Therfyn Awdurdodedig (£240 miliwn) ac mae'n llai na'r rhagolwg Nawdd Cyfalaf Gofynnol (£253.1 miliwn). Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cadw at y Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf ac nid yw’n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Mae'r gymhareb costau ariannu i’r llif refeniw net ar gyfer 2017/18 yn 6.85%. Mae'r gymhareb hon yn arwydd o fforddiadwyedd ac mae’n tynnu sylw at oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran o’r gyllideb refeniw sydd ei angen i gwrdd â chostau benthyca.

4.6 **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS)**

Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu ceisiadau cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2018/19 ymlaen. Mae’r rhain wedi eu manylu yn Atodiad 5 a'u crynhoi yn Atodiad 6.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae prosiectau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni Amcanion Corfforaethol y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

*6.*1 **Goblygiadau o ran Cost**

Mae'n angenrheidiol sicrhau bod y Cynllun Cyfalaf yn cael ei ariannu'n llawn gan fod yn rhaid i unrhyw gost ychwanegol, sy'n fwy na chyfanswm y cyllid sydd ar gael, gael ei ariannu o gyllidebau refeniw.

6.2 **Staffio/TG/Goblygiadau Swyddfa**

Mae'n ofynnol llenwi ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a thrafod goblygiadau penodol yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau tunelli carbon perthnasol cyn ac ar ôl prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn cynyddu, lleihau neu ddim yn cael effaith ar allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiadau 8 i 17.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae prosiectau'n cael eu paratoi ac yna'n cael eu monitro mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, gyda chopïau caled o'r ceisiadau wedi eu lleoli yn ystafell yr Aelodau a cheisiadau prosiect ar gael i'w gweld ar Mod.Gov.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau heb gael ei gyllido'n llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a'r prosiect yn cael ei drafod gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Mae angen i Noddwyr Prosiect arfer rheolaeth dynn dros eu gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n gallu aros o fewn eu cyllidebau.

Mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei flaenoriaethau drwy'r cynllun corfforaethol. Yn sail i fforddiadwyedd y Cynllun mae rhagdybiaethau allweddol ynghylch cyllidebau refeniw ac arian. Mae maint y Cynllun Corfforaethol yn golygu ei fod yn ymestyn dros gyfnod o 5-7 mlynedd ac yn sicr yn golygu wrth iddo barhau, y bydd gwahaniaethau amser rhwng y rhagdybiaethau a gynlluniwyd a'r rhagdybiaethau gwirioneddol ynghylch y defnydd o arian. Gall hyn olygu y gall cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gynyddu nes y byddant wedi'u hymrwymo. Fodd bynnag, mae'n hanfodol gwerthfawrogi pe bai'r adnoddau'n cael eu gwyro trwy oes y Cynllun, bydd yn cael effaith ar gyflawniad prosiectau.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai risgiau posibl yn cynnwys cynlluniau’n peidio symud ymlaen, colli grant ac amhariad ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio os na fuddsoddir, a gall hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae’r holl gynlluniau’n cael eu hadolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac maent hefyd yn destun monitro ac adrodd misol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Gofynnir i Awdurdodau Lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972) wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.